Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Headlands

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Headlands yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli yn ardal breswyl Penarth, ym Mro Morgannwg. Mae'n rhan o elusen Gweithredu dros Blant. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau preswyl a dydd yn ystod y tymor i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Yn ddiweddar iawn, mae un o'r tai preswyl wedi'i gofrestru'n gartref plant gydag AGGCC. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i ddarparu preswylfa i nifer bach o ddisgyblion yn ystod gwyliau'r ysgol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn addysgu 63 o ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 i'r cyfnod ôl-16. Daw bron pob un o'r disgyblion o awdurdodau lleol Cymru, gyda nifer bach o awdurdodau lleol Lloegr. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae gan 15 o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf gan Estyn yn Hydref 2012.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn dda.

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda ar lefel adrannol ac ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, er enghraifft coleg, ysgol brif ffrwd ac elusennau lleol, i ehangu profiadau dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn gosod ffocws cadarn ar les disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion â dysgu. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn gyffredinol.

Mae disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda.

Mae staff a disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn hapus i ofyn am help a chyngor, a'i dderbyn.

Mae'r ysgol yn casglu amrywiaeth eang o ddata priodol ar gynnydd disgyblion mewn perthynas â'u dysgu a'u hymddygiad. Mae staff yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol i gynllunio strategaethau a rhaglenni ymyrryd perthnasol.

Mae'r ysgol yn datblygu rolau arwain yn yr ysgol yn dda. Er enghraifft, mae penaethiaid cyfnod allweddol yn cymryd rhan mewn arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chynllunio'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol raglen sefydledig o arsylwadau gwersi. Mae athrawon yn cael adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol. Mae rheolwyr yn dadansoddi'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ac yn trafod y wybodaeth hon gyda staff ar ddiwrnodau

hyfforddiant.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar addysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio gweithgareddau cychwynnol i ennyn diddordeb disgyblion.

Mae’r ysgol yn craffu ar lyfrau yn rheolaidd.  Mae rheolwyr wedi cydnabod yr angen i ddefnyddio’r gweithgaredd hwn i ganolbwyntio’n fwy ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu, yn ogystal ag ansawdd adborth ysgrifenedig.

**Meysydd i’w datblygu**

Er bod gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau, nid yw rheolwyr bob amser yn adolygu’r rhain yn ddigon gofalus i sicrhau eu bod yn glir ac yn cynnwys pob gwybodaeth angenrheidiol.

Er bod yr ysgol yn cadw cofrestr presenoldeb, nid yw hon wedi’i llenwi yn unol â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.  Er enghraifft, nid yw’r gofrestr yn nodi absenoldebau awdurdodedig ac absenoldebau anawdurdodedig yn glir ac nid yw’n defnyddio’r codau cywir.  Ar adegau, gwneir cofnodion mewn pensil.  Yn ystod yr ymweliad, fe wnaeth rheolwyr sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o’r gweithdrefnau cywir.

Mae gan yr ysgol adroddiad hunanarfarnu manwl sy’n cael ei adolygu’n rheolaidd.  Fodd bynnag, nid yw’r meysydd i’w datblygu yn ddigon penodol.  O ganlyniad, nid yw’r hyn sydd angen ei wella, a pham, yn glir bob amser.

**Argymhellion**

A1 Adolygu pob polisi yn ofalus, yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn hawdd eu darllen a’u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol

A2 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu’n nodi’r meysydd allweddol y mae angen eu gwella yn glir

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod cymorth oedolion yn yr ystafell ddosbarth yn hybu medrau annibyniaeth disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant i'r holl aelodau staff ar hybu medrau annibyniaeth disgyblion. Mae hyn yn cynnwys sesiynau ar ddatblygu medrau meddwl a gwaith grŵp annibynnol. Mae athrawon yn annog disgyblion i weithio heb gymorth oedolion, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'u cymheiriaid. Mewn bron pob gwers, mae athrawon a staff cymorth yn rhoi amser i ddisgyblion feddwl wrth ateb cwestiynau. Maent yn annog disgyblion i feddwl am atebion i broblemau.

Mae staff cymorth yn deall pwysigrwydd hybu annibyniaeth disgyblion trwy dynnu cymorth yn ei ôl yn raddol, lle y bo'n briodol. Pan fydd disgyblion yn cael cymorth ychwanegol, mae'r ysgol yn eu hannog i weithio gyda mwy nag un oedolyn, i'w hatal rhag dod i orddibynnu ar unrhyw un aelod staff unigol.

**Argymhelliad 2: Gwella'r amgylchedd dysgu yng nghyfnod allweddol 2**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol i ystafelloedd cyfnod allweddol 2. Erbyn hyn, mae'n darparu amgylchedd dysgu priodol. Mae dodrefn lliwgar yn creu awyrgylch siriol. Mae arddangosfeydd deniadol ar waliau ystafelloedd dosbarth yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae arddangosfeydd yn atgoffa disgyblion o bwysigrwydd cyfeillgarwch a pharch tuag at eraill. Mewn ychydig ystafelloedd dosbarth, caiff gwaith disgyblion ei arddangos ar y waliau i ddathlu eu llwyddiant.

Yn y tymor hir, mae'r ysgol yn gobeithio datblygu adeilad newydd i gyfnod allweddol 2, a fydd yn cynnig mwy o le. Mae cynlluniau manwl wedi'u llunio a'u cyflwyno i'r elusen i'w hystyried.

## Cydymffurfio â'r safonau cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. I gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Gynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 3(9)

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Headlands |
| **Rhif yr ysgol** | 6736025 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11/01/2017 |
| **Perchennog** | Gweithredu dros Blant |
| **Staff** | 15 athro, 30 cynorthwyydd addysgu, 24 gweithiwr cymorth preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 63 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Ymddygiad heriol, anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anhwylderau ymlyniad |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 05/11/2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 03/02/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 08/03/2016 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Tîm |